# Cyngor Tref ***NEFYN*** Town Council

<u>COFNODION</u> Cyfarfod Cyngor, Nos Iau 24/09/2020 ar Zoom am 7yh

**Presennol**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Rhys Tudur | Mared Llywelyn Williams | Cai Rees Jones | Gruffydd Williams | Alaw Llewelyn Roberts |
| Rhys Llewelyn | Pat Humphreys (Clerc) | | | |

1. **Ymddiheuriadau.**
   Carys Roberts, Arfon Hughes, Catrin Roberts, Janice Evans

2. **Cynnig i alw am ddatganoli Treth Trafodiad Tir i'r Cyngor Sir** – Rhys Tudur
   Cynnig yw hwn i ddatganoli pwerau i'r Cyngor Sir i allu delio gyda Treth Trafodiad Tir. Y Llywodraeth sydd yn cael y refeniw i gyd ar y funud sydd yn egluro pam nad ydynt yn awyddus i daclo'r broblem ail gartrefi a tai i bobol leol. Drwy roi y pwerau i'r Cyngor Sir fe fyddai yn ffordd o reoli pryniant tai a'i wneud yn aneconomaidd i brynnu tai yma a'u trosi yn dai haf a'u hysbysebu ar Airbnb.
   Penderfyniad: Pasiwyd y cynnig.
   Cynnig: Rhys Tudur Eilio: Gruffydd Williams

3. **Ymgyrch i gefnogi y cynnig i atal tai rhag mynd o afael pobl leol**
   Yn y cyfarfod diwethaf penderfyniwyd trefnu taith gerdded i Bencadlys y Cyngor Sir yng Nghaernarfon i dynnu sylw at ddifrifoldeb y sefyllfa ac yn dilyn hynny cynnigiwyd cynnal y daith gerdded dydd Sadwrn yma y 26ain o Fedi 2020.
   Penderfyniad: Pasiwyd bod aelodau CTN yn cerdded i Gaernarfon dydd Sadwrn yma sef y 26ain o Fedi 2020 gan gychwyn o Nefyn am 8 y.b. gan anelu i fod yn Gaernarfon am 3 y.h. Estyn gwahoddiad i unigolion o bentrefi eraill i ymuno a aelodau o CTN ac hefyd i enwebu Cyngor Tref/Cymuned arall i gario'r ymgyrch ymlaen y penwythnos nesaf a bod un Cyngor Tref/Cymuned yn cael eu enwebu bob penwythnos o hyn ymlaen. Cario baneri gyda nhw ar hyd y daith gan gymeryd y cyfle i dynnu llyniau a fideos ar hyd y ffordd ac wedi cyrraedd Caernarfon mynd at brif fynedfa Pencadlys y Cyngor Sir. Cysylltu gyda'r wasg i gael gymaint o gyhoeddusrwydd i'r digwyddiad a phosibl a cofio cadw at reolau covid-19 sef pellter cymdeithasol a.y.y.b
   Pasiwyd hefyd fod CTN yn cadw swm o arian tuag at gynnal yr ymgyrch sef £500.
   Cynnig: Alaw Eilio: Cai

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Symudol: 07901 704410 • Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Catrin Roberts • 07880 737298